*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Medi 2019** |
| Aelod Arweiniol | **Y Cynghorydd Sue Lloyd-Williams** |
| Swyddog Arweiniol | **Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Llinos Gutierrez-Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol 01745 535276** |
| Pwnc | **Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed tuat at gyflawni'r strategaethau gwella a argymhellwyd gan Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol sydd gan y Cyd-Gyngor ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol (NJC).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd mewn perthynas â'r strategaethau a oedd yn deillio o waith Grŵp Cynhwysol y Cyd-Gyngor ac a gafodd eu cefnogi gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn 2017.

**ARGYMHELLIAD**

3. Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4. Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

5. Cafodd Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol, sydd gan y Cyd-Gyngor, ei ffurfio ym mis Hydref 2015 i ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth, a materion diwylliannol fel bwlio ac aflonyddu.

6. Ym mis Mehefin 2017, fe wnaeth y Grŵp gyhoeddi cylchlythyr cenedlaethol a oedd yn cynnig nifer o strategaethau ar gyfer gwella ac a oedd yn ceisio cefnogaeth cyflogwyr a gweithwyr i hybu'r rhain ar lefel leol.

7. Cafodd y cylchlythyr ei ystyried gan Banel Gweithredol yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2017. Cytunwyd ar ymateb llawn i'r cylchlythyr, ac enwebwyd y Cynghorydd Sue Lloyd-Williams i arwain y rhaglen waith.

8. Erbyn hyn, mae'r Cynghorydd Lloyd-Williams yn cadeirio grŵp trawsbynciol sy'n cynnwys aelodau o'r staff, cyrff cynrychioliadol ac uwch reolwyr. Mae'r grŵp wedi cael y dasg o fonitro cynnydd a hyrwyddo mentrau newydd, a hynny yn unol â strategaethau y cytunwyd arnynt.

**GWYBODAETH**

9. Yn y deuddeng mis diwethaf, mae cynnydd mawr wedi cael ei wneud mewn perthynas â strategaethau allweddol. Yn arbennig, mae aelodaeth Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol nawr yn cynnwys staff mwy amrywiol, gan gynnwys diffoddwr tân o'r System RDS, cynrychiolydd benywaidd o undeb, a phrentis diffoddwraig tân.

10. Un flaenoriaeth gyfredol yw datblygu Blaenraglen Waith 3 blynedd i barhau i wella'r gwaith o ymgysylltu â staff am y meysydd allweddol. Mae'r Flaenraglen Waith a gynhaliwyd ar gyfer 2018/19 wedi'i hatodi (Atodiad 1).

11. O ganlyniad i gamau gweithredu a gymerwyd gan y Gwasanaeth yn ystod yr ymgyrch recriwtio a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn, llwyddwyd i recriwtio diffoddwyr tân o grwpiau a oedd yn cael eu tangynrchioli o'r blaen felly mae'n well am adlewyrchu'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys nifer gyfartal o ddynion a merched, yn ogystal â phobl o gefndiroedd LHDT+ a Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

12. Llwyddiant arall oedd gweithredu Rhaglen Golau Glas MIND Cymru, i ddarparu cymorth i staff gwasanaethau brys drwy raglen gynhwysfawr o weithgareddau i geisio lleihau stigma, hybu llesiant, a gwella cefnogaeth i iechyd meddwl.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad â Strategaeth Pobl a Datblygu Cymru gyfan a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau arwyddocaol i'r gyllideb ar hyn o bryd. |
| Cyfreithiol | Rhoddwyd ystyriaeth i'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. |
| Staffio | Bydd rhaid cael adnoddau i gynnal y strategaethau a amlinellir yn yr adroddiad. Gallai capasiti gyfyngu ar allu'r Awdurdod i wneud cynnydd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r adroddiad yn delio â'r holl nodweddion gwarchodedig. |
| Risgiau | Ddim yn berthnasol. |